GWYBODAETH I DDISGYBLION

# Dy ganllaw i Roi Cydsyniad ar sail Gwybodaeth

Os wyt ti'n **cydsynio** i rywbeth, rwyt ti'n cytuno i wneud rhywbeth neu'n caniatáu i rywbeth gael ei wneud

**Wrth gynllunio beth i'w wneud pan fyddi di'n gadael yr ysgol, bydd gofyn i ti benderfynu beth fydd yn digwydd i dy Gynllun Datblygu Unigol (CDU). Fel arfer, bydd hyn tua'r un amser â dy adolygiad ym mlwyddyn 11, a hynny'n rhan o'r cynllun pontio.**

Os wyt ti'n parhau mewn addysg, bydd gofyn i ti **gydsynio** i dy CDU barhau a chael ei rannu gyda dy goleg neu ysgol nesaf.

**Mae'n bwysig bod gyda ti wybodaeth a chymorth i ddeall beth mae hyn yn ei olygu a sicrhau bod modd i ti wneud y dewis sydd orau i ti.**

RHONDDA CYNON TAF

**Dyma rai geiriau allweddol a brawddegau a allai gael eu defnyddio wrth sôn am barhau â dy CDU.**

### "Addysg orfodol"

Dyma'r adeg pan fo rhaid i blentyn gael addysg (rhwng 5 ac 16 oed). Mae hyn fel arfer yn golygu bod yn ddisgybl mewn ysgol, ond mae modd bod mewn lleoliadau eraill hefyd.

### "Plentyn"

Person sydd ddim dros yr oedran ysgol gorfodol.

### "Person ifanc"

Person sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol, ond yn iau na 25 oed.

### "Cydsyniad ar sail gwybodaeth"

Ystyr cydsyniad ar sail gwybodaeth yw cael a deall yr wybodaeth lawn am yr effeithiau neu ganlyniadau posibl os wyt ti'n cytuno i wneud rhywbeth.

### "Cynnal CDU"

Mae'r gair 'cynnal' yn cael ei ddefnyddio i olygu bod yn gyfreithiol gyfrifol am sicrhau bod y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) sy'n cael ei disgrifio yn dy CDU yn cael ei darparu.

Mae'r rhan fwyaf o CDUau yn cael eu cynnal gan ysgolion neu golegau, ond mae'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol am gynnal CDUau rhai plant a phobl ifainc.

### "Rhoi'r gorau i gynnal CDU"

Pan roddir y gorau i gynnal CDU, mae hyn yn golygu fydd yr ysgol, y coleg neu'r Awdurdod Lleol ddim yn darparu CDU mwyach.

## Beth sy'n digwydd i fy CDU pan fydda i'n gadael yr ysgol?

Dogfen yw dy CDU a'r nod yw ei fod yn symud gyda ti wrth i ti symud ymlaen yn dy addysg. Pan fyddi di'n gadael addysg, er enghraifft, os wyt ti'n cael swydd pan rwyt ti'n gadael yr ysgol, bydd dy CDU yn dod i ben. Os wyt ti'n bwriadu parhau gyda dy addysg, er enghraifft, gwneud cwrs mewn coleg neu addysg bellach, yna mae modd i dy CDU gael ei drosglwyddo i'r coleg.

Mae hyn yn golygu bydd y coleg yn gyfrifol am 'gynnal' dy CDU ac am wneud yn siŵr bod gyda ti'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) sydd ei hangen arnat ti i fod yn llwyddiannus yn y coleg.

Mae Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 yn nodi dy fod ti'n dod yn berson ifanc ar ôl gorffen addysg orfodol, ac mae'n bwysig dy fod di'n deall beth yw dy hawliau ac unrhyw newidiadau eraill yn y ffordd y cei di gymorth.

## Beth mae dod yn 'berson ifanc' yn ei olygu i mi?

Fel plentyn, mae dy rieni/gwarcheidwaid fel arfer yn gwneud penderfyniadau am dy addysg. Ond, wrth i ti ddod yn berson ifanc, rwyt ti'n penderfynu p'un a wyt ti eisiau i dy CDU gael ei drosglwyddo i'r coleg. Dyma pam, yn ystod dy flwyddyn olaf yn yr ysgol, bydd rhywun yn gofyn i ti am dy farn.

Wrth gwrs, hyd nes y byddi di'n gorffen addysg orfodol, bydd dy rieni/gwarcheidwaid yn parhau i fod yn rhan o bethau a byddan nhw eisiau dy helpu di i wneud y penderfyniadau pwysig yma.

## Fydd angen cymorth arna i yn y coleg?

Bydd dy athro, ymgynghorydd Gyrfa Cymru, neu rywun tebyg yn cael sgwrs gyda ti am hyn. Bydd gwahodd staff y coleg i dy gyfarfod adolygu yn dy helpu di i gael gwybod pa fath o gymorth sydd ar gael yn y coleg.

Gallai cwestiynau yr hoffet ti eu gofyn gynnwys:

- Sut mae'r cymorth rydw i'n ei dderbyn ar hyn o bryd yn fy helpu i?
- A oes unrhyw anfanteision i dderbyn y cymorth yma?
- Beth am fy mhryderon am sut y bydda i'n cael cymorth yn y coleg?

Gallai cymorth yn y coleg edrych ychydig yn wahanol ac mae'r sgwrs yma'n dy helpu di i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth dda.

## Beth sy'n digwydd os ydw i'n cydsynio i ddweud wrth y coleg am fy anghenion dysgu?

- Mae modd i'r coleg fod yn barod i roi cymorth ar waith i ti erbyn i ti ddechrau yno.
- Bydd tiwtoriaid yn gwybod beth rwyt ti'n ei chael yn anodd ac yn gwybod sut i roi cymorth i ti.
- Rwyt ti'n fwy tebygol o lwyddo os wyt ti'n derbyn y cymorth sydd ei angen arnat ti yn y coleg.
- Ti fydd yn penderfynu ar y cymorth – fydd ddim rhaid i ti dderbyn cymorth dwyt ti ddim yn gyfforddus gydag ef.
- Mae dy CDU yn disgrifio'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol rwyt ti'n ei derbyn yn yr ysgol ar hyn o bryd. Bydd staff y coleg yn adolygu hyn gyda ti er mwyn penderfynu a oes angen cymorth 'ychwanegol' arnat ti a pharhau â dy CDU.

**Beth os nad ydw i eisiau rhoi gwybod i'r coleg fy mod i'n derbyn cymorth ychwanegol ac felly ddim yn rhoi cydsyniad i rannu fy CDU?**

- Gallai hyn ei gwneud hi'n fwy anodd i staff y coleg wneud yn siŵr dy fod di'n derbyn y cymorth sydd ei angen arnat ti a gallai ei gwneud hi'n anoddach i ti lwyddo yn y coleg
- Os nad wyt ti am barhau â dy CDU yn y coleg, mae modd i ti gael cymorth o hyd trwy Ddarpariaeth Ddysgu Gyffredinol (ULP)* y coleg, ond efallai na fyddi di'n cael cymorth ychwanegol i ddiwallu dy anghenion dysgu ychwanegol
- Fyddi di ddim yn cael adolygiad CDU ffurfiol bob blwyddyn lle bydd modd i ti drafod dy gymorth. (Serch hynny, bydd cyfleoedd eraill i drafod sut rwyt ti'n dod ymlaen).

## Beth yw Darpariaeth Ddysgu Gyffredinol yn y coleg?

Staff y coleg yw'r bobl orau i ddweud wrthot ti am y ddarpariaeth ddysgu gyffredinol sydd ar gael i bob disgybl (gyda neu heb CDU). Wrth feddwl am fynd i'r coleg, manteisia ar gyfleoedd i gael gwybod rhagor trwy ymweld â'r campws, edrych ar y wefan a siarad â staff y coleg.

Dyma rai enghreifftiau o Ddarpariaeth Ddysgu Gyffredinol:

- Tiwtor Personol i drafod ac adolygu dy gynnydd
- Staff allweddol i gefnogi dy les
- Sesiynau cymorth llythrennedd a rhifedd
- Man tawel
- Trefniadau mynediad ar gyfer arholiadau

Fydd dim angen cynnal CDU rhai pobl ifainc, oedd â CDU yn yr ysgol, yn y coleg oherwydd bod cymorth a oedd yn 'ychwanegol' yn yr ysgol yn rhan o'r ddarpariaeth ddysgu gyffredinol yn y coleg (ac felly ddim yn ychwanegol).

## A oes modd i mi newid fy meddwl?

**Oes!** Pan rwyt ti'n dod yn berson ifanc, dylai dy ysgol wirio gyda ti a yw dy benderfyniad yr un peth, ond mae modd i ti newid dy feddwl ar unrhyw adeg.

Os wyt ti'n dechrau yn y coleg heb CDU, ac yna'n teimlo bod angen cymorth ychwanegol arnat ti, dylet ti siarad gyda dy diwtor am hyn.

## Oes gyda ti unrhyw gwestiynau?

Sut wyt ti'n teimlo am:

- Dweud wrth y coleg am yr anghenion rwyt ti wedi bod yn cael cymorth gyda nhw yn yr ysgol? Mae modd trafod hyn yn dy gyfarfod adolygu ac mae hwn yn gwestiwn sydd ar ffurflenni cais colegau.
- Parhau gyda dy CDU?
- Derbyn y cymorth y mae'r coleg yn ei gynnig i ti?

Mae'n iawn os oes angen mwy o amser neu wybodaeth arnat ti i dy helpu di i wneud penderfyniad. Cofia siarad am y peth. Efallai y bydd pethau eraill y mae modd i ti eu gwneud – megis ymweld â'r coleg neu siarad gyda disgyblion eraill sy'n derbyn/ddim yn derbyn cymorth ychwanegol yn y coleg.

Defnyddia'r blwch yma i nodi unrhyw gwestiynau neu bryderon sydd gyda ti...